



Polisi Dyfarnu Grantiau (Iaith Gymraeg) – Haf 2016

Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Penfro fodloni safonau sydd wedi'u hamlinellu yn y rhybudd cydymffurfio a gyflwynwyd iddo ar 30/9/15, dan Reoliad Safonau'r Iaith Gymraeg 2015. Gellir gweld copi o'r rhybudd cydymffurfio ar dudalen Safonau'r Iaith Gymraeg ar ein gwefan www.pembrokeshire.gov.uk/psg

Diben y safonau yw:

- gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg eu disgwyl gan sefydliadau yn y Gymraeg
- cynyddu'r defnydd y mae pobl yn ei wneud o wasanaethau Cymraeg

Cwmpas y Polisi

Mae'r polisi hwn yn ymwneud yn unig â grantiau y mae Cyngor Sir Penfro yn eu dyfarnu'n uniongyrchol o'i gronfeydd ei hun i ariannu sefydliadau. Ni chynhwysir y canlynol yn y polisi:

- Grantiau i unigolion (*e.e. grantiau dillad ysgol, grantiau cyfleusterau i'r anabl, grantiau gwaith mân, ac ati*)
- Grantiau i ymddiriedolaethau elusennol sy'n cael eu rheoli gan yr awdurdod a'u rheoleiddio gan y Comisiwn Elusennau (*e.e. Cronfa Ymddiriedolaeth Deddf Eglwysi Cymru, Elusen Addysgol Arberth, ac ati*)
- Grantiau a weinyddir ar ran cyrff eraill (*e.e. yr Undeb Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, y Loteri Fawr, ac ati*)
- Arian a ddarperir i sefydliadau lle mae cytundeb lefel gwasanaeth neu contract mewn grym (*mae arweiniad ar wahân ar gyfer hyn*)

Diben y polisi

Diben y polisi hwn yw sicrhau:

- ein bod yn rhoi ystyriaeth i unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg wrth inni ddyfarnu grantiau
- bod yr iaith yn cael ei defnyddio'n briodol mewn unrhyw weithgarwch rydym yn ei ariannu drwy grant

Egwyddorion y polisi

Yr egwyddorion sy'n sail i'r polisi o ran yr iaith Gymraeg yw:

- na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg mewn unrhyw weithgarwch rydym yn ei ariannu drwy grant

- ei bod yn cael ei hyrwyddo a'i hwyluso yng nghyd-destun unrhyw weithgarwch rydym yn ei ariannu drwy grant

Ceisiadau am grant

Rhaid i geisiadau am grant a delir yn uniongyrchol o gronfeydd yr awdurdod ei hun, a'r polisi hwn yn gymwys iddynt, gael eu cyflwyno:

- Gwella Grant Sir Benfro ffurflen cais (*Premiwm ail Gartref Treth y Cyngor*)
- Ar ffurflen cais am Gefnogaeth i'r Celfyddydau (*gweithgareddau a phrosiectau celfyddydol*)

NEU

- Ar ffurflen cais am Gymorth Ariannol (*pob gweithgarwch a phrosiect*)

Fel rhan o'r broses o wneud cais, gofynnir i ymgeiswyr:

“Esbonio pa ddefnydd a wneir o'r iaith Gymraeg o fewn y gweithgarwch a arfaethir (meddylwch yn benodol sut y byddwch yn dangos nad ydych yn trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, ac am unrhyw gyfleoedd y bydd y gweithgarwch a arfaethir yn eu darparu i bobl i siarad Gymraeg).”

Asesu ceisiadau am grant

Wrth asesu ceisiadau am grant sydd i gael ei dalu'n uniongyrchol o'n cronfeydd ein hunain, a'r polisi hwn yn gymwys iddynt, byddwn yn ystyried i ba raddau y bydd y gweithgarwch a arfaethir yn darparu cyfle i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg, ac i ba raddau y dangoswyd na fydd yr iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg. Byddwn yn ystyried effaith gyfan dyfarnu'r grant ar yr iaith Gymraeg (cadarnhaol a negyddol). Lle bydd angen, gallwn ofyn am wybodaeth ychwanegol gan yr ymgeisydd am ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

Amodau grant

Wrth ddyfarnu grant i gael ei thalu'n uniongyrchol o'n cronfeydd ein hunain, a'r polisi hwn yn gymwys iddi, byddwn yn gosod amodau mewn cysylltiad â'r iaith Gymraeg fel a ganlyn:

- Rhaid i'r ymgeisydd gynnal y camau (mewn cysylltiad â pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, a darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg) sydd wedi'u hamlinellu yn y cais am grant

NEU

- Ei bod yn ofynnol i'r ymgeisydd gynnal camau penodol ychwanegol mewn cysylltiad â'r iaith Gymraeg, er mwyn inni gael ein sicrhau y bydd dyfarnu'r grant yn mwyhau effeithiau cadarnhaol posibl i'r iaith Gymraeg drwy ddarparu'r gweithgarwch sy'n cael ei ariannu gan grant

Rhoi gwybod am ganlyniad cais

Byddwn yn rhoi gwybod i ymgeiswyr yn ysgrifenedig am ganlyniad eu cais. Gall cynigion ysgrifenedig amlinellu nifer o amodau grant, a disgwylir i ymgeiswyr gadw at y rheiny.

Monitro grant

Os llwyddant, bydd yn ofynnol hefyd i ymgeiswyr baratoi adroddiad, ar ddiwedd y cyfnod ariannu a fydd wedi'i gytuno, yn dangos bod y camau arfaethedig a amlinellwyd yn y cais a/neu sy'n ofynnol o fewn amodau'r grant wedi eu cyflawni (gan gynnwys mewn cysylltiad â'r iaith Gymraeg).

Rhaid i ymgeiswyr hefyd gofio y gall grantiau gael eu harchwilio. Rhaid iddynt ganiatáu, yn ddi-dâl, i un o swyddogion y Cyngor ymweld â'u hadeilad i archwilio unrhyw weithgareddau neu gofnodion yn ymwneud â defnyddio'r arian grant. Dylid cadw cofnodion am gyfnod o 6 mlynedd, yn ogystal â'r flwyddyn gyfredol.